


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

**AROLYGON O FFINIAU TUA'R MÔR:
POLISI AC ARFER 2017**

RHAGAIR

Hon yw ein dogfen Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr: Polisi ac Arfer a luniwyd gan ragweld y bydd prosiectau ynni newydd o fewn dyfroedd tiriogaethol Cymru, sy'n golygu y byddai angen newid ffiniau tua'r môr i'w dod â nhw i mewn i ardaloedd prif gyngor.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu'r llyfryn hwn sy'n cadarnhau'r gweithdrefnau a'r fethodoleg yr ydym wedi'u mabwysiadu mewn perthynas ag arolygon o ffiniau tua'r môr y mae'r Comisiwn yn eu cynnal.

Owen Watkin OBE DL

Cadeirydd

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

CAERDYDD

CF24 0BL

Rhif Ffôn: (029) 2046 4819

Rhif Ffacs: (029) 2046 4823

E-bost: cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk

www.cffdl.llyw.cymru

Cyflwyniad

- 1 Gall y Comisiwn, er mwyn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, gynnal arolygon o ffiniau tua'r môr prif ardaloedd mewn ymateb i gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru neu o'i ddewis ei hun. Caiff y modd y cynhaliu'r Comisiwn arolwg ei ddiffinio gan ddeddfwriaeth a gellir ei arwain gan gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.
- 2 Mae'r Comisiwn yn gwybod bod cynlluniau ar gyfer nifer o brosiectau ynni a all fynnu ymestyn ffiniau prif ardaloedd i mewn i'r môr er mwyn darparu ar gyfer y gweithdrefnau cynllunio angenrheidiol. Cred y Comisiwn ei bod yn fuddiol amlinellu'r ffordd y mae'n bwriadu cynnal unrhyw arolygon yn y dyfodol.
- 3 Dymuna'r Comisiwn fod yn glir o'r cychwyn, er bod y Comisiwn yn debygol o ymestyn ffiniau prif ardaloedd i mewn i'r môr mewn ymateb i ddatblygiadau arfaethedig, nid yw'r arolygon hyn, mewn unrhyw ffordd, yn gymeradwyaeth i'r prosiectau hynny. Rôl y Comisiwn yn syml yw ymestyn ffiniau i mewn i'r môr er mwyn hwyluso pŵer prif awdurdod i ystyried cynigion.
- 4 Mae'r ddogfen hon Arolygon o Ffiniau Tua'r Môr: Polisi ac Arfer yn amlinellu polisiâu a gweithdrefnau'r Comisiwn a fydd yn cael eu cymhwysu er mwyn bodloni'r rhwymedigaethau fel yr amlinellwyd mewn deddfwriaeth.

Gofynion Statudol

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

- 5 Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) mewn perthynas ag arolygon llywodraeth leol, gan gynnwys arolygon o ffiniau tua'r môr, yn disodli darpariaethau deddfwriaeth gynharach.
- 6 Mae Adran 21(3) y Ddeddf yn dweud bod rhaid i'r Comisiwn, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Dyma yw swyddogaeth bennaf a hollbwysig y Comisiwn. Un o'r dyletswyddau a ddarperir ar ei chyfer gan y Ddeddf yw cynnal arolygon o ffiniau tua'r môr prif ardaloedd.
- 7 Mae Adran 28 y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i adolygu ffiniau tua'r môr a'r argymhellion y gall y Comisiwn eu gwneud yn hynny o beth.

Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Ffiniau Tua'r Môr Prif Ardaloedd

- 8 Caiff y Comisiwn, fel y disgrifiwyd yn Adran 28(2) y Ddeddf, argymhell:
 - (a) Cynnwys o fewn yr ardal llywodraeth leol [sy'n cael ei hadolygu] unrhyw ardal o'r môr nad yw, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o ardal llywodraeth leol arall; ac

- (b) Allgáu unrhyw ardal o'r môr sydd, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o'r ardal llywodraeth leol [sy'n cael ei hadolygu].

Rhychwant Ffiniau Tua'r Môr

- 9 Mae Adran 46 yn amodi
- (1) Mae unrhyw ran o lannau'r môr i farc y distyll yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cyd-ffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin;
 - (2) Mae pob croniant o'r môr (boed yn naturiol neu'n artiffisial) yn ffurfio rhan o'r gymuned neu'r cymunedau y mae'n cyd-ffinio â hi neu â hwy gan gyfateb i gyfran rhychwant y ffin gyffredin; ac
 - (3) Mae pob croniant neu ran o lannau'r môr sy'n ffurfio rhan o gymuned o dan yr adran hon hefyd yn ffurfio rhan o'r brif ardal a'r sir wedi ei chadw lle y mae'r gymuned.
- 10 I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd y Comisiwn yn ymestyn ffiniau'r ardaloedd cymunedol i mewn i'r môr fel rhan o arolwg o dan yr adran hon. Fel canlyniad, byddai ffiniau prif gynghorau a ffiniau cynghorau wedi eu cadw yn newid.

Ystyriaethau

- 11 Wrth gynnal arolwg o ffiniau tua'r môr, dymuna'r Comisiwn fod yn glir o'r cychwyn fod y Comisiwn yn ystyried ymestyn ffiniau ardaloedd cymunedol i mewn i'r môr a'u lleoli'n briodol.
- 12 Nid yw'r Comisiwn yn ystyried priodoldeb na rhinweddau unrhyw ddatblygiad sydd wedi ysgogi'r arolwg. Nid yw'r argymhellion a wna'r Comisiwn ychwaith, mewn unrhyw ffordd, yn gymeradwyaeth i unrhyw ddatblygiadau.

Y Weithdrefn

Y Weithdrefn

- 13 Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal arolygon llywodraeth leol, gan gynnwys arolygon o ffiniau tua'r môr, wedi'i hamlinellu ym Mhennod 4 y Ddeddf.

Y Weithdrefn Ragadolygu

- 14 Cyn cynnal arolwg, rhaid i'r Comisiwn gymryd y camau hynny y maent o'r farn eu bod yn briodol er mwyn dod â'r adolygiad i sylw ymgynghoreion gorfodol ac unrhyw berson y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddynt fuddiant yn yr arolwg. Os rhoddir unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru, yna rhaid i'r Comisiwn hefyd wneud yr ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae ganddynt fuddiant yn ymwybodol o'r rhain.

- 15 O ran arolygon o ffiniau tua'r môr, mae Adran 34(3) y Ddeddf yn diffinio 'ymgyngoreion gorfodol' fel:
- unrhyw awdurdod lleol y mae'r arolwg yn effeithio arno;
 - unrhyw sefydliad sy'n cynrychioli'r staff a gyflogir gan awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy, ac
 - unrhyw bersonau eraill a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- 16 Oddeutu dri mis cyn y bwriad i gychwyn arolwg bydd swyddogion y Comisiwn yn cyfarfod â swyddogion y cyngor sy'n destun arolwg. Bydd y cyfarfod hwn yn amlinellu arferion a gweithdrefnau cyffredinol yr arolwg. Bydd swyddogion y Comisiwn yn trafod beth yw disgwyliadau'r Comisiwn ar gyfer yr arolwg, sut y bwriadwn ymgymryd ag ymgynghoriad a sut y disgwyliwn i'r cyngor gefnogi'r arolwg, o ran darparu gwybodaeth, gwneud cynigion ac mewn perthynas â rhoi cyhoeddusrwydd i'r arolwg.
- 17 Y prif gyngor fydd i benderfynu pa rai o'i swyddogion fydd yn mynychu'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn argymhell fod y cyngor yn ystyried bod y swyddogion canlynol (neu eu swyddogion cyfwerth) yn mynychu: Y Prif Swyddog Gweithredol (neu gyfwerth), y Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, cynrychiolydd gwasanaethau cyfreithiol a swyddog cynllunio. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd gan y swyddogion hyn rôl wahanol i'w chwarae i sicrhau bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn effeithlon ac yn effeithiol, gyda mwy o debygolrwydd y bydd canlyniad llwyddiannus i'r arolwg.
- 18 Ar ddechrau swyddogol yr arolwg, bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor sy'n destun yr arolwg, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad ar gyfer yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant, i'w hysbysu o'i friad i gynnal yr arolwg, ac i ofyn am eu barnau rhagarweiniol. Bydd y cyfnod hwn yn para ryw 4 wythnos. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r arolwg. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned i'w ddsbarthu mewn manau priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau'r cyngor ac ati.

Cynigion Drafft

- 19 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn a bydd yn cyhoeddi cynigion drafft ar gyfer ymgynghori. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para rhwng 6 a 12 wythnos, 9 wythnos fel arfer. Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor sy'n destun yr arolwg, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad ar gyfer yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant, i'w hysbysu ynglŷn â'r cynigion drafft, ac i ofyn am eu barnau. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r cynigion. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned i'w ddsbarthu mewn manau priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau'r cyngor ac ati.

Cynigion Terfynol

- 20 Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn ac yn cyhoeddi Argymhellion Terfynol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at y prif gyngor sy'n destun yr arolwg, yr holl gynghorau cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad ar gyfer yr etholaethau lleol a phartïon eraill â buddiant, i'w hysbysu ei fod wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y Comisiwn hefyd yn darparu deunydd cyhoeddusrwydd y bydd yn gofyn i'r prif gyngor a'r cynghorau tref a chymuned i'w ddsbarthu mewn manau priodol, fel llyfrgelloedd cyhoeddus, hysbysfyrddau tref a chymuned, gwefannau a chylchlythyrau'r cyngor ac ati.
- 21 Nid oes cyfnod ymgynghori pellach gyda'r Comisiwn.
- 22 Llywodraeth Cymru sydd i benderfynu wedyn sut mae'n dymuno symud ymlaen ar yr argymhellion. Fel arfer, ar ôl cyfnod o 6 wythnos o leiaf, byddai Gorchymyn yn cael ei wneud, a all gynnwys mân addasiadau.

Yr ystriaethau i'w gwneud yn ystod arolwg o ffiniau tua'r môr

- 23 Yn nodweddiadol, mae arolygon yn cyflwyno ystod o faterion a heriau sy'n mynnu barn ar ôl pwysu a mesur, gan ystyried materion, yn ychwanegol at ofynion statudol, sy'n cynnwys y canlynol:
- llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;
 - rhychwant cynigion datblygu penodol;
 - clustogfa; a,
 - chynrychiolaethau.
- 24 Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl ffactorau hyn wrth wneud argymhellion ac yn gwahodd ymatebwyr i ystyried bob un o'r rhain wrth gyflwyno cynlluniau a chynnig sylwadau ar y cynigion drafft.

Llywodraeth leol effeithiol a chyfleus

- 25 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i argymhell cyflawni llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer prif gynghorau.
- 26 Wrth geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, mae'r Comisiwn, wrth ystyried ffiniau arfaethedig tua'r môr, yn sicrhau bod rhychwant ffiniau tua'r môr awdurdodau yn golygu y gall ystyried datblygiadau o fewn ei gylch gwaith.

Rhychwant Cynigion Datblygu Penodol

- 27 Mae'r Comisiwn yn debygol o fod wedi dechrau arolwg o ffiniau tua'r môr yng ngolau cynigion datblygu penodol a gyhoeddwyd neu a ddarparwyd i'r Comisiwn. Mae'n hanfodol yr eir ar drywydd y rhain er mwyn sicrhau bod gan awdurdod y ffin briodol tua'r môr i ystyried unrhyw ddatblygiadau.

Clustogfa

- 28 Cred y Comisiwn ei bod yn ddoeth cynnig 'clustogfa' o amgylch cynnig er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau i gynigion datblygu yn ystod y broses gynllunio, neu os wynebir problem wrth gyflawni datblygiad.
- 29 Er mwyn caniatáu ar gyfer hyn, ac i sicrhau nad oes angen arolygon pellach o ffiniau tua'r môr, bydd y Comisiwn yn cynnig ffin sy'n mynd ymhellach na'r datblygiad cynlluniedig o faint penodol. Bydd y maint hwn yn cael ei bennu yn y lle cyntaf naill ai mewn ymateb i gynrychiolaethau neu ar lefel sy'n briodol i'r datblygiad.
- 30 Bydd y Comisiwn yn ymgynghori ar faint y glustogfa yn ystod cyfnod y cynigion drafft.

Cynrychiolaethau

- 31 Mae'r Comisiwn yn annog prif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, aelodau, partiön â buddiant a'r cyhoedd i wneud cynrychiolaethau ac awgrymiadau fel rhan o broses yr arolwg. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau'n seiliedig ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r cynigion sy'n cael eu hystyried.
- 32 Ni wnaiff y Comisiwn ystyried cynrychiolaethau, neu rannau o gynrychiolaethau, sy'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r datblygiadau arfaethedig eu hunain. Fel y disgrifiwyd ym mharagraffau 3, 11 a 12, nid oes a wnelo arolwg y Comisiwn â rhinweddau, neu beidio, datblygiad arfaethedig. Rôl y Comisiwn yn syml yw ymestyn ffiniau i mewn i'r môr er mwyn hwyluso pŵer prif awdurdod i ystyried cynigion.
- 33 Bydd y Comisiwn yn ystyried, cydnabod ac yn crynhoi pob cynrychiolaeth a wneir. Os bydd unrhyw berson neu gorff yn gwneud cynrychiolaeth i'r Comisiwn ac nid yw'n derbyn cydnabyddiaeth, dylai gysylltu â'r Comisiwn er mwyn sicrhau ei fod wedi derbyn y gynrychiolaeth. Os na chaiff eich cynrychiolaeth ei chydnabod, yna mae'n debygol iawn nad yw'r Comisiwn wedi derbyn y gynrychiolaeth ac ni fydd yn cael ei hystyried yn nhrefodaethau'r Comisiwn.
- 34 Caiff crynodeb o bob cynrychiolaeth a dderbynia'r Comisiwn ei gyhoeddi mewn atodiad yn Adroddiadau Cynigion Drafft a Chynigion Terfynol y Comisiwn. Mae gan y Comisiwn bolisi na fydd aelodau'r cyhoedd yn cael eu henwi mewn crynodebau o gynrychiolaethau a gyhoeddir yn yr adroddiadau. Bydd y Comisiwn yn pennu lle y maent yn byw yn y grynoded o'r gynrychiolaeth.

Casgliad

- 35 Mae arolwg o ffiniau tua'r môr yn ymarferiad i gyflawni cyfrifoldeb statudol, cymhwysu pwerau a roddwyd i'r Comisiwn, a dangos barn a fyynnir gan y ddeddfwriaeth. Bwriedir i bolisiâu'r Comisiwn roi hyder i rai eraill yn y modd y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau mewn unrhyw arolwg, ond nid yw'n golygu na ellir taro'r cydbwysedd iawn yn amgylchiadau penodol y cymunedau a'r prif gyngor sy'n destun arolwg. Mae'r Comisiwn yn llunio barn ar y cyd wrth benderfynu ar y materion sy'n arwain at y

cynigion yn yr arolygon, a bydd yr ystyriaethau a roddir i'r materion a'r rhesymeg a fabwysiedir yn cael eu hesbonio yn yr adroddiadau.

Ionawr 2017

